# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 24/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Diweithdra

***9. Sandy Mewies:*** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r dystiolaeth bod diweithdra'n effeithio ar iechyd. OAQ(3)1767(HSS)*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yr wyf yn gwybod bod cael swydd bwrpasol yn dda i les corfforol a meddyliol ac mae tystiolaeth yn dangos bod diweithdra yn gysylltiedig ag iechyd gwaeth. O ganlyniad, yr ydym wedi comisiynu uned gymorth asesu effaith ar iechyd Cymru i arwain adolygiad o effeithiau dirwasgiad ar iechyd yng Nghymru.

### Gofal Deintyddol

***10. Angela Burns:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i wella gofal deintyddol yng Nghymru. OAQ(3)1756(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae'n parhau i fod yn anodd cael gwasanaeth deintyddiaeth y GIG mewn rhai rhannau o Gymru. Yr wyf am weld cynnydd pellach o ran cyrraedd sefyllfa lle mae pawb yng Nghymru sydd am ddefnyddio gwasanaeth deintyddiaeth y GIG yn cael gwneud hyn.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)1769(HSS), yn ôl.*

### Buddsoddi Cyfalaf

***12. Alun Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi cyfalaf mewn ysbytai yng Nghymru. OAQ(3)1786(HSS)*

**Edwina Hart:** Dros oes Llywodraeth gyfredol y Cynulliad yr ydym yn neilltuo adnoddau cyfalaf o £1.4 biliwn i GIG Cymru ac yr ydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ysbytai cyffredinol dosbarth i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran cael gwasanaethau a'u hansawdd i sicrhau y caiff anghenion pobl ledled Cymru eu diwallu.

### Meddygon Teulu

***13. Brian Gibbons:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol. OAQ(3)1772(HSS)*

**Edwina Hart:** Ystyrir gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yng nghyd-destun 'Gosod y Cyfeiriad', ein dull strategol tuag at wasanaethau cychwynnol a chymuned. Yr ydym wedi paratoi rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a fydd yn edrych ar sut i integreiddio gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn well i ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol.

### Cyrff Gwirfoddol

***14. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cyrff gwirfoddol o ran cefnogi'r gwasanaeth iechyd. OAQ(3)1779(HSS)*

**Edwina Hart:** Rhoddir cydnabyddiaeth gadarn i'r trydydd sector fel partner allweddol mewn cefnogi gwasanaethau iechyd drwy atal afiechyd, darparu gwasanaethau gofal iechyd a chefnogi'r rheini sydd fwyaf difreintiedig a'r rheini â'r anghenion mwyaf. Mae hefyd yn cynnig sgiliau, arbenigedd ac adnoddau ychwanegol.

### Gwasanaethau Cymdeithasol

***15. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn y Gorllewin. OAQ(3)1765(HSS)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am asesu anghenion a chynllunio a chomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion. Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith strategol, y cyfarwyddyd statudol a'r cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu i gefnogi'r gwasanaethau hanfodol hynny.

## Cwestiynau i'r Diprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Asiantaeth Safonau Gyrru yng Nghaerdydd

***9. Trish Law:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU o ran sicrhau dyfodol yr Asiantaeth Safonau Gyrru yng Nghaerdydd. OAQ(3)1725(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a phrif weithredwr yr Asiantaeth Safonau Gyrru i ddangos cefnogaeth i gadw'r swyddi yn swyddfa Caerdydd.

### Cefnogaeth ar gyfer Gwyddoniaeth ac Arloesedd yng Nghaerffili

***10. Jeff Cuthbert:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghaerffili. OAQ(3)1721(ECT)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Rhoddir cefnogaeth i wyddoniaeth ac arloesi yng Nghaerffili mewn sawl ffordd, fel ym mhob rhan o Gymru. Ymhlith y gefnogaeth sydd ar gael mae talebau arloesedd ar gyfer cwmnïau newydd sydd â photensial mawr i dyfu ac arbenigwyr arloesedd rhanbarthol, yn ogystal â gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth a chydweithio â phrifysgolion a cholegau.

### Manteision Economaidd o'r Cwpan Ryder

***11. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteisio i'r eithaf ar y manteision economaidd sy'n deillio o'r Cwpan Ryder. OAQ(3)1728(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weindiog:** Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar fanteision economaidd cynnal y Cwpan Ryder. Yr ydym wedi gweld twf mewn twristiaeth golff, mewn contractau i gwmnïau Cymreig ac yn y math o fusnesau yr ydym am eu denu. Cynhelir astudiaeth ar effaith economaidd y digwyddiad, a bydd yn cael ei chwblhau yn y flwyddyn newydd.

### Hygyrchedd Trafnidiaeth Gyhoeddus

***12. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus. OAQ(3)1741(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weindiog:** Yr ydym yn cynnal nifer o fentrau i'w gwneud yn haws defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau ei bod yr un mor hygyrch i bawb. Mae manylion y mentrau hyn i'w gweld yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ac maent yn cynnwys rhaglen genedlaethol gwella gorsafoedd a mentrau trafnidiaeth gymunedol**.**

### Cefnogaeth i Fusnesau Bach

***13. Jeff Cuthbert:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i fusnesau bach yng Nghaerffili. OAQ(3)1723(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weindiog:** Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn mynd â ni tuag at alluogi twf economaidd drwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau, caffael a defnyddio'n holl ysgogiadau polisi yn fwy craff. Mae creu'r amgylchedd cywir i bob busnes ffynnu wrth wraidd ein dull gweithredu newydd.

### Diogelwch ar y Ffyrdd tu allan i Ysgolion

***14. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd y tu allan i ysgolion. OAQ(3)1718(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weindiog:** Yr ydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol drwy'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r rhaglen grant diogelwch ffyrdd lleol i hybu a sicrhau gwelliannau yn lleol. Gall hyn gynnwys gwella diogelwch y tu allan i ysgolion.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1698(ECT),yn ôl.*